Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cerrigydrudion
**Canolfan Gymunedol**
**Ffordd yr Alwen**
**Cerrigydrudion**
**Corwen**
**Conwy**
**LL21 9SW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Cerrigydrudion wedi'i leoli yn y ganolfan gymunedol yn y pentref. Pentref gwledig bychan ydy Cerrigydrudion wedi`i leoli ar yr A5 hanner ffordd rhwng Corwen a Betws y Coed yng Ngogledd Cymru.

Mae hwn yn leoliad cyfrwng Cymraeg a sefydlwyd tua 40 mlynedd yn ôl sy`n cymryd plant o'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae ar agor am ddau fore`r wythnos (Dydd Llun a Dydd Gwener) rhwng 9.30 y.b. a 11.30 y.b. ac ar ddau brynhawn (Dydd Mawrth a Dydd Iau) rhwng 12.50 y.p. a 3.20 y.p. yn ystod y tymor ysgol. Mae'n darparu ar gyfer plant dwy a hanner oed ymlaen. Ar hyn o bryd mae 23 o blant ar y gofrestr.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 16 o blant yn bresennol ar brynhawn dydd Iau. Mae wyth yn blant tair oed ac mae pedwar yn cael eu hariannu. Roedd yr wyth plentyn arall yn bedair oed ac wedi mynychu'r ysgol gynradd gyfagos yn y bore.

Ar fore dydd Gwener yr arolygiad, roedd 14 o blant yn bresennol, 11 o blant tair oed (4 ohonynt yn cael eu hariannu) a thri o blant iau.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i ddarparu ar gyfer uchafswm o 16 o blant ar unrhyw un adeg. Daw'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi sydd â`r Gymraeg yn brif iaith. Mae tri aelod o staff llawn amser; mae gan y ddau aelod o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y lleoliad gymwysterau addas ac maen nhw`n cael cymorth gan gynorthwy-ydd.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2013 a gan Estyn yn 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r rhan fwyaf o`r plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cyflawni`n dda;
- mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau da at ddysgu;
- mae safonau lles y plant yn uchel;
- mae`r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth werthfawr o brofiadau a gweithgareddau ar gyfer y plant;
- mae safonau gofal, cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer y plant yn dda;
- mae`r ymarferwyr yn canolbwyntio`n dda ar annog plant i fwyta`n iach a i ymgymryd ag ymarfer corff yn reolaidd;
- mae`r berthynas rhwng oedolion a phlant yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd:

- mae`r arweinydd yn rhoi ffocws clir ar ddarparu`r ddarpariaeth orau ar gyfer y plant;
- mae`r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu wedi`i sefydlu`n dda ac yn effeithiol;
- mae gan y lleoliad flaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant sy`n canolbwyntio`n dda ar wella`r ddarpariaeth;
- mae`r lleoliad yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 wella gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad medrau`r plant;

A2 cynllunio gweithgareddau priodol sy`n cyfateb yn dda i anghenion y plant;

A3 gwella`r amgylchedd dysgu lle`n bosib.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn enwedig yn eu datblygiad o`r iaith Gymraeg. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maen nhw`n llawn cymhelliant ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer.

Mae llawer o blant yn eistedd ac yn gwrando'n dda, er enghraifft yn ystod amser stori, er bod rhai yn cael eu sylw wedi`i dynnu yn hawdd ac yn colli diddordeb. Mae gan y rhan fwyaf o blant iaith sydd wedi'i datblygu'n dda gan siarad yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae llawer o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau, yn enwedig gydag oedolyn a gall rhai plant ail-adrodd rhannau o'r stori yn gywir. Mae llawer o blant yn defnyddio offer creu marciau yn annibynnol ac yn hyderus, gan gynnwys pensiliau, sialc a pheniau ffelt. Maen nhw`n deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu fel cymryd negeseuon o alwadau ffôn. Mae mwyafrif y plant yn dal peniau a phensiliau yn gywir.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn adrodd rhifau hyd at 10 yn gywir a chyfrif yn gywir, fel cyfrif y nifer o blant sy'n bresennol adeg cofrestru. Mae ychydig o blant yn dechrau defnyddio iaith fathemategol, fel "mawr a bach", "o dan ac uwchben".

Mae`r plant yn defnyddio`u medrau rhif wrth reoli tegan rhaglenadwy gan ei gyfeirio at sgwâr penodol. Mae gan y rhan fwyaf o blant sgiliau echddygol manwl da, fel wrth drin llygoden y cyfrifiadur. Mae pob plentyn yn peintio`n greadigol gan ddefnyddio

ystod o liwiau; maen nhw`n ymwneud yn bwrpasol mewn ymarfer corff ac mae gan lawer fedrau echddygol bras da.

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg, yn enwedig y plant o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Mae bron pob plentyn yn deall geiriau Cymraeg sylfaenol ac mae`r iaith yn cael ei derbyn fel cyfrwng cyfathrebu.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn hapus i fod yn y lleoliad ac yn ymgartrefu'n gyflym i`r drefn ddyddiol. Maen nhw`n ymddwyn yn dda, yn dangos agweddau da ac yn awyddus i ymateb i oedolion.

Mae pob plentyn yn mwynhau ystod eang o weithgareddau ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau gyda thasgau am gyfnodau sylweddol o amser.

Yn ystod amser byrbryd mae pob plentyn yn dod o hyd i'w henwau ar fatiau er bod angen anogaeth ar rai ohonynt. Mae'r rhan fwyaf yn eistedd ac yn aros yn dawel i gael eu gweini. Mae pob un yn ymwybodol o'r angen am hylendid da drwy olchi eu dwylo cyn bwyta.

Mae llawer o blant yn gwneud dewisiadau synhwyrol am yr hyn maen nhw eisiau ei wneud. Mae'r plant yma`n defnyddio offer yn synhwyrol ac yn helpu i glirio adnoddau i ffwrdd pan mae`r staff yn gofyn iddynt.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd y cynllunio yn dda ar y cyfan. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio gyda'i gilydd i ddarparu ystod eang o brofiadau diddorol sy'n llwyddo i ysgogi pob plentyn i ddysgu. Mae`r gweithgareddau`n cael eu cynllunio'n effeithiol o gwmpas themâu sy'n cael eu dewis o brofiad blaenorol i ennyn diddordeb y plant. Mae`r cynllunio yn canolbwyntio`n dda ar alluogi plant i gael mynediad i bob maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd da i blant ddatblygu ac ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh.)

Mae`r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu, trwy chwarae fel arfer, ac mae hyn yn llwyddo i ddarparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu hyder a'u hannibyniaeth.

Mae`r cynllunio yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru.

Mae defnydd da yn cael ei wneud o ymweliadau â'r ardal leol, gan gynnwys y parc lleol, i gyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Roedd ymweliadau â'r clinig milfeddygol wedi galluogi`r plant i ddysgu am y gofal a'r sylw sydd angen ar anifeiliaid er mwyn iddynt ddatblygu.

**Addysgu:  Da**

Mae`r ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau i annog plant i ddysgu ac i ddyfalbarhau ar dasgau.  Mae`r gweithgareddau yn cynnig profiadau dysgu ysgogol i blant ond mae gormod o bwyslais ar weithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion.  Mae`r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau am eu dysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol ond mae'r rhain yn gyfyngedig weithiau.  Nid yw`r tasgau a`r gweithgareddau yn cyfateb yn dda i allu'r plant yn gyson.  Mewn achosion o'r fath, mae lleiafrif o blant yn colli diddordeb, fel wrth wrando ar stori

Mae'r berthynas rhwng oedolion a phlant a rhwng y plant eu hunain yn gyson dda.  Mae'r plant yn gwybod eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gwybod sut i geisio cymorth yn ôl yr angen.

Mae`r lleoliad yn cofnodi asesiadau`r plant mewn llyfrynnau unigol ac mae`r cofnodion hyn yn dangos gweithgareddau sydd wedi`u cyflawni gan y plant.  Mae'r rhain ar gael i rieni / gofalwyr ar ddiwedd y flwyddyn.  Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi`r cofnodion hyn.  Fodd bynnag, nid yw cofnodion y lleoliad o gyflawniad y plant yn canolbwyntio'n ddigonol ar eu cynnydd mewn caffael sgiliau.  Yn ogystal, nid yw`r asesu`n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynllunio`r gweithgareddau ar gyfer y dyfodol sy`n bodloni anghenion unigol y plant er mwyn atgyfnerthu ac ymestyn dysgu`r plant.

Mae rhieni'n adrodd eu bod yn cael eu hysbysu'n briodol am gynnydd eu plant drwy adborth perthnasol o ddydd i ddydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau i annog plant i ddysgu ac i ddyfalbarhau ar dasgau.  Mae`r gweithgareddau yn cynnig profiadau dysgu ysgogol i blant ond mae gormod o bwyslais ar weithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion.  Mae`r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud dewisiadau am eu dysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol ond mae'r rhain yn gyfyngedig weithiau.  Nid yw`r tasgau a`r gweithgareddau yn cyfateb yn dda i allu'r plant yn gyson.  Mewn achosion o'r fath, mae lleiafrif o blant yn colli diddordeb, fel wrth wrando ar stori

Mae'r berthynas rhwng oedolion a phlant a rhwng y plant eu hunain yn gyson dda.  Mae'r plant yn gwybod eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gwybod sut i geisio cymorth yn ôl yr angen.

Mae`r lleoliad yn cofnodi asesiadau`r plant mewn llyfrynnau unigol ac mae`r cofnodion hyn yn dangos gweithgareddau sydd wedi`u cyflawni gan y plant.  Mae'r rhain ar gael i rieni / gofalwyr ar ddiwedd y flwyddyn.  Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi`r cofnodion hyn.  Fodd bynnag, nid yw cofnodion y lleoliad o gyflawniad y plant yn canolbwyntio'n ddigonol ar eu cynnydd mewn caffael sgiliau.  Yn ogystal, nid yw`r asesu`n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynllunio`r gweithgareddau ar gyfer y dyfodol sy`n bodloni anghenion unigol y plant er mwyn atgyfnerthu ac ymestyn dysgu`r plant.

Mae rhieni'n adrodd eu bod yn cael eu hysbysu'n briodol am gynnydd eu plant drwy adborth perthnasol o ddydd i ddydd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cyfeillgar sy'n gwbl gynhwysol. Mae pob plentyn yn hapus yn nghwmni ei gilydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i helpu oedolion a cheir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth, fel dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gan bob plentyn hawl gyfartal i'r cwricwlwm.

Mae'r ystafell ddysgu yn cael ei defnyddio gan sefydliadau eraill sy`n golygu bod rhaid i offer ac adnoddau gael eu gosod ar gyfer pob sesiwn. Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd o weithgareddau braidd yn gyfyngedig ac yn ddi-fflach, er enghraifft, nid yw'r ardal ddarllen yn ffafriol i ddenu plant i ddewis ac edrych ar lyfrau. Yn yr un modd mae`r ddarpariaeth y tu allan yn gyfyngedig iawn ac nid yn hygyrch yn uniongyrchol i'r plant. Mae hyn yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i'r plant a'u gallu i ddewis gweithgareddau.

Mae'r ystafell ddysgu yn cael ei chynnal yn dda ac yn amgylchedd diogel gan ei bod o fewn yr adeilad. Mae'r drws yn cael ei gadw ar glo, ond mae'n rhaid i oedolyn fynd gyda`r plant i gyrraedd y toiledau. Gwneir defnydd da o arddangosfeydd lliwgar o waith y plant i gyfoethogi'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae gan y lleoliad nodau clir sy'n canolbwyntio'n gryf ar gynnig y ddarpariaeth orau posibl i bob plentyn. Mae'r nodau hyn yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda'r ymarferwyr eraill.

Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd priodol a rolau a chyfrifoldebau maen nhw`n eu deall yn dda. Mae'r lleoliad yn dangos synnwyr cryf o ddiben ac mae`r ymarferwyr yn dangos ymdeimlad o fwynhad o berfformio hyd eithaf eu gallu. Mae`r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac yn llwyddo i gefnogi ei gilydd i gwrdd ag amcanion y lleoliad.

Mae system arfarnu dda sydd wedi'i sefydlu'n dda yn ei lle ac mae'r staff yn mynychu cyrsiau dysgu proffesiynol yn reolaidd. Mae`r targedau arfarnu wedi'u cysylltu'n dda â thargedau`r lleoliad ar gyfer gwella.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gefnogi sut mae`r lleoliad yn rhedeg o ddydd i ddydd ac mae`r ymarferwyr yn gweithredu'r rhain yn gyson.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cael gwybodaeth dda am gynnydd y lleoliad. Mae'n cyfarfod yn reolaidd i drafod darpariaeth y lleoliad a`i gynlluniau i`r dyfodol. Mae`r holl wariant yn cael ei drafod ac yn cael ei gyfateb â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac annog bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan reolaidd ac effeithiol o fywyd y lleoliad. Mae`r ymarferwyr yn hunan-feirniadol ac yn gwerthuso ansawdd darpariaeth y lleoliad yn reolaidd. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys adborth gan rieni a staff cymorth yr awdurdod lleol.

Ar y cyfan, mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau a diffygion y lleoliad. Mae tystiolaeth o werthusiadau o'r fath yn cael ei defnyddio`n effeithiol i greu cynllun gweithredu blynyddol sy'n llwyddo i flaenoriaethu`r cam nesaf yn natblygiad y lleoliad. Mae`r cynlluniau datblygu yn cynnwys dyddiadau, personau cyfrifol, targedau a gweithdrefnau monitro a gwerthuso. Mae`r cynlluniau yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae hyn yn arfer dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gwerth chweil yn llwyddo i wella deilliannau ar gyfer y plant. Mae'r lleoliad yn cymryd camau gweithredol i gynnwys pob rhiant yn ei waith. Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu`n dda am waith y lleoliad ac am gynnydd a chyflawniad eu plant. Mae llawer o rieni yn cynorthwyo gyda chodi arian a mae`r rhieni yn darparu swyddogion i`r pwyllgor rheoli.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da ac effeithiol o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol ac elwa`n sylweddol o gyngor a chymorth yr athrawes ymgynghorol. Ar y cyfan, mae hyn wedi cael effaith fuddiol ac arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gyflawniad plant.

Mae cysylltiadau agos yn bodoli gyda'r ysgol gynradd sydd ar yr un safle. Mae'r plant yn adnabod athrawes y dosbarth derbyn sy'n ymweld â'r lleoliad ac mae`r plant hefyd yn ymweld â'r ysgol. Mae rhai plant pedair oed yn dychwelyd i'r lleoliad ar gyfer y sesiynau prynhawn ar Ddydd Mawrth a Dydd Iau. Mae trefniadau o'r fath yn helpu`r plant i ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd wedi`u hyfforddi'n briodol ac sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r ymarferwyr yn rhannu syniadau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau i gefnogi'r addysgu er bod rhai ardaloedd o weithgareddau yn gyfyngedig fel meysydd deniadol ar gyfer addysg y plant.

Mae gan y lleoliad ffyrdd priodol ac effeithiol o adolygu gwariant ac er mwyn sicrhau bod gwariant yn cyfateb yn dda i`r blaenoriaethau sy`n cael eu nodi yn y cynllun datblygu.

O ystyried y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant yn nhermau`u cynnydd a'u cyflawniad a'u lles, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |